

**CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG**

**YN CHUBUT**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL 2013**

**Gareth Kiff LL.B B.Add**

**Monitor Academaidd**

**Prif Diwtor**

**Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg**

**Ysgol y Gymraeg**

**Prifysgol Caerdydd**

## CYNNWYS

- 1) Gorolwg ( Tud.2 )
- 2) Targedau 2013 ( Tud.2)
- 3) Llwyddiannau Allweddol ( Tud.3 – 4 )
- 4) Traweffaith Y Cynllun/Ystadegau a Ffigurau (Tud.5-6 )
- 5) Crynodeb o brif bwyntiau fesul oedran/lefel ( Tud.7 – 19 )
- 6) Menter Patagonia ( Tud.20 - 29 )
- 7) Astudiaethau Achos ( Tud.30 – 35 )
- 8) Argymhellion ( Tud.36 - 37 )



## **GOROLWG**

**Nod y Cynllun yw hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn nhalaith Chubut, Patagonia, Yr Ariannin.**

**Ers sefydlu'r Cynllun yn 1997 mae'r Cynllun wedi recriwtio athrawon ac yn fwy diweddar, Swyddogion Menter Iaith Patagonia, i ddysgu a threfnu gweithgareddau cymdeithasoli iaith.**

**Mae'r Cynllun hefyd yn darparu hyfforddiant ac arweiniad i dîm o diwtoriaid ac athrawon lleol. Dysgir ystod eang iawn o ran oedran – o blant meithrin i oedolion.**

**Yn ogystal â derbyn cyllid gan Llywodraeth Cymru mae'r Cynllun yn derbyn cyfraniadau ariannol gan Gymdeithas Cymru Ariannin a British Council Cymru sy'n gweinyddu'r rhaglen fel rhan o'r Prosiect Addysg Ryngwladol.**

**Rheolir y Cynllun gan Bwyllgor yr Iaith Gymraeg sy'n cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Cymru Ariannin, Menter Patagonia a Chanolfan Gymraeg i Oedolion, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.**

## **TARGEDAU 2013**

- 1) Anfon 3 unigolyn i addysgu a threfnu gweithgareddau cymdeithasoli iaith Menter Patagonia. Yn y Dyffryn anelwyd at recriwtio un tiwtor Cymraeg i Oedolion profiadol ac athro arall fyddai'n arbenigo mewn gwaith plant gan roi cryn sylw i ddatblygu addysg feithrin a chynradd yn Gaiman.**
- 2) Cyflogi un Cydlynnydd Dysgu yn Wladfa.**
- 3) 900 o ddysgwyr mewn gwersi Cymraeg.**
- 4) 3 thiwtor/athro i arsylwi mewn sefydliadau addysgol yng Nghymru.**
- 5) 4 person o Batagonia i dderbyn hyfforddiant iaith ar gwrs haf dwys Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.**
- 6) Sicrhau bod tiwtoriaid yn gwneud defnydd mwy helaeth o dechnoleg er mwyn sicrhau defnydd o'r adnoddau mwyaf diweddar mewn gwersi.**
- 7) Sefydlu cyrsiau penodol i oedolion e.e. cyrsiau i rieni a chyrsiau gweithle.**
- 8) Sefydlu 3 partneriaeth trwy Connecting Classrooms**

## LLWYDDIANNAU ALLWEDDOL

- 1) Anfonwyd 3 pherson i Batagonia. Un athrawes i'r Andes 50% dysgu a 50% gwaith Menter Patagonia. 2 berson i'r Dyffryn. Un oedd y canolbwyntio ar addysg plant a'r llall oedd yn canolbwyntio ar Gymraeg i oedolion. Treuliyd 25% o amser y ddau ar drefnu gweithgareddau Menter Patagonia.
- 2) Adnewyddwyd cytundeb y Cydlynnydd Dysgu a daeth i Gymru er mwyn arsylwi nifer o sectorau addysg gwahanol a diweddarau gwybodaeth parthed datblygiadau addysgol yng Nghymru. Gweler Atodiad 1.
- 3) Cyfanswm o 985 o bobl ar gyrsiau Cymraeg. (977 oedd y cyfanswm yn 2012).

Cynnydd yn nifer y dosbarthiadau – 83 yn 2013 i gymharu â 79 yn 2012

- 4) Daeth 3 athrawes i arsylwi yng Nghymru am gyfnod o 6 wythnos. Un mewn ysgolion cynradd Cymraeg yn Ysgol y Berllan Deg Caerdydd ac Ysgol Gynradd Llanrug ; un am bythefnos yng Nghanolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol Caerdydd a mis yn Ysgol Uwchradd Penweddig Aberystwyth ac un am y cyfnod cyfan yng Nghanolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion Prifysgol Caerdydd.
- 5) Oherwydd safon uchel a niferus y ceisiadau i fynychu cwrs Cymraeg dwys yng Nghanolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol Caerdydd dewiswyd 5 o bobl i fynychu'r cwrs yn lle 4. 2 ar gwrs 8 wythnos ( Canolradd ac Uwch 1 ) a 3 ar gyrsiau 5 wythnos (Uwch 2 a Gloywi).
- 6) Gwelwyd tystiolaeth yn ystod cyfnod arsylwi yr Arolygiad Blynyddol bod defnydd o dechnoleg gwybodaeth wedi cynyddu e.e. defnydd o gyfrifiaduron mewn gwersi, gwaith gwylio a deall ac ati.
- 7) Nifer o gyrsiau penodol wedi'u cynnal e.e. Swyddfa Dwristiaeth Gaiman, Ysbyty'r Gaiman a dau Dŷ Te yn Nhrevelin. Gweler Atodiad 2- Cwrs Swyddfa Dwristiaeth Gaiman

8) Ysgol Feithrin Gaiman wedi derbyn cydnabyddiaeth swyddogol gan awdurdod addysg Chubut sy'n golygu bod modd symud ymlaen i sefydlu ysgol gynradd gyflawn fel sydd wedi digwydd eisoes gydag Ysgol Yr Hendre yn Nhrelew.

9) 15 o oedolion wedi sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC a phawb wedi pasio. Gweler tudalen 18.

10) Taith Yr Urdd. Gweler tudalen 27.

11) Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer sefydlu rhaglenni radio a fydd yn cynorthwyo'r broses o normaleiddio defnydd o'r Gymraeg yn Y Wladfa. Gweler tudalen 28.



*Patricia Ramos ( ar y dde ) gyda rhai o disgyblion Blwyddyn 7 Ysgol Gyfun Penweddig, Aberystwyth lle bu'n arsylwi am dair wythnos ar ôl arsylwi yng Nghanolfan Cymraeg i Oedolion, Prifysgol Caerdydd. Ar y chwith gwelir athrawes gofrestru'r dosbarth a Phennaeth Hanes yr ysgol.*

## TRAWEFFAITH Y CYNLLUN

### YSTADEGAU

1 Cydlynnydd Dysgu – Clare Vaughan

<http://www.britishcouncil.org/cy/wales-welsh-language-project-clare-whitehouse.htm>

1 Cydlynnydd Gweinyddol – Luned Gonzalez

3 o Athrawon a Swyddogion Menter Patagonia

Eluned Evans ( Yr Andes )

Rhisiart Arwel ( Y Dyffryn )

Sandra de Pol ( Y Dyffryn )

24 o athrawon/tiwtoriaid lleol

Nifer y dosbarthiadau:

83 o ddsbarthiadau yn 2013 ( 79 yn 2012 )

<b>Gaiman</b> 39 (32)	<b>Trelew</b> 21 (19)	<b>Yr Andes</b> 23 (28)
--------------------------	--------------------------	----------------------------

Nifer y dysgwyr:

*Disgwylir i nifer o gyrsiau byrion gael eu cynnal cyn diwedd y flwyddyn academaidd felly mae'n bosib bydd y cyfanswm yn uwch na'r ffigur isod yn y pendraw.*

	<b>Gaiman</b>	<b>Trelew</b>	<b>Yr Andes</b>	<b>CYFANSWM</b>
<b>2013</b>	<b>657</b>	<b>171</b>	<b>157</b>	<b>985</b>
2012	607	145	225	977
2011	582	133	131	846
2010	527	85	150	762
2009	474	76	153	703
2008	378	97	112	587

**Niferoedd o ran haenau oedran y dalgylchoedd:**

	Meithrin	Ôl feithrin	Plant Cynradd	Ardegau	Oedolion	Cyfanswm
Gaiman	61	33	193	300	70	657
Trelew	21	12	82	0	56	171
Yr Andes	21	0	74	14	48	157
<b>Cyfanswm</b>	<b>103</b>	<b>45</b>	<b>349</b>	<b>314</b>	<b>174</b>	<b>985</b>

**Oriau yn ôl y dalgylchoedd**

	Gaiman	Trelew	Yr Andes	Cyfanswm
Meithrin	46 20 mun	35	10)	91 20 mun
Ôl-feithrin	5	17 30 mun	0	22.30mun
Plant cynradd	9 awr 40 mun	88 50 mun)	12 30 mun	111
Ardegau	16 awr 50	0	3	19. 50mun
Oedolion	20awr 30	24	21. 30mun	66
<b>CYFANSWM</b>	<b>98.20mun</b>	<b>165 20 mun</b>	<b>47</b>	<b>310 40m</b>

**245.16 oedd cyfanswm yr oriau yn 2012**

**Niferoedd o ran lefelau iaith – Oedolion**

	Cyn Fynediad	Mynediad (Wlpan 1)	Sylfaen (Wlpan 2)	Canolradd (Pellach)	Uwch a Meistroli	Hyfedredd (Gloywi)	Cyf
Gaiman	11(0)	18 (8)	15 (13)	0 (6)	6 (2)	20 (14)	70 (43)
Trelew	0 (0)	31 (18)	8 (0)	8 (2)	0 (2)	9 (8)	56 (30)
Yr Andes	6 (0)	12 (12)	6 (17)	8(9)	9 (10)	7 (16)	48 (64)
<b>Cyfanswm</b>	<b>17 (0)</b>	<b>61 (38)</b>	<b>29 (30)</b>	<b>16 (17)</b>	<b>15 (14)</b>	<b>36 (38)</b>	<b>174 (137)</b>

## **Plant Meithrin a Chynradd ( Cyfrwng Cymraeg )**

Ymwelwyd ag Ysgol Feithrin Gaiman ac Ysgol Yr Hendre yn ystod y cyfnod arsylwi a chynhaliwyd cyfarfodydd buddiol gyda Phenaethiaid y ddwy.

Roedd athrawes y Cynllun o Gymru, Sandra de Pol, yn treulio amser yn y ddwy ysgol gan ganolbwyntio ar ddatblygu addysg feithrin a chynradd yn Gaiman.

### **YSGOL FEITHRIN GAIMAN**



Cafwyd gwybod yn ystod yr arolygiad bod awdurdod addysg Talaith Chubut wedi rhoi statws swyddogol i Ysgol Feithrin Gaiman. Gwnaed y cais yn ôl yn 2009 felly mae hyn yn gam enfawr ymlaen yn yr ymgyrch i sefydlu ysgol gynradd ddwyieithog ( Cymraeg/Sbaeneg ) yn Gaiman sef y dref fwyaf Cymraeg a Chymreig yn Y Wladfa. Mae ganddynt gynlluniau gan bensaer a fyddai'n golygu adeilad ar gyfer ysgol gynradd gyfan gyda dros 200 o blant.

Sefydlwyd Ysgol Feithrin Gaiman 10 mlynedd yn ôl yn 1993 ac enillwyd 'Sêl y Cylch Rhagorol' yn ystod arolygiad gan un o arolygwyr Mudiad Ysgolion Meithrin yn 2010.

Darperir cwricwlwm amrywiol gan gynnwys darllen stori gydag Esyllt Nest Roberts de Lewis un o gyn-athrawon y Cynllun sydd erbyn hyn wedi priodi ac ymsefydlu yn Gaiman ac yn



magu dau fachgen trwy gyfrwng y Gymraeg a Sbaeneg yno ), coginio, dawnsio gwerin, cerddoriaeth ac ymarfer corff. Fel rhan o ddathliadau 2015 maent yn gobeithio cyhoeddi llyfr Cymraeg am Gaiman a hanes Cymru fyddai'n adnodd hynod ddefnyddiol ar gyfer ysgolion Cymru.

Dylid nodi bod 7 allan o'r 12 o staff wedi dysgu neu arsylwi dan nawdd Y Cynllun ac mae pob un yn gweithio yno o hyd gyda Cinthia Zamareño yn mynychu Cwrs Haf Cymraeg Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion Prifysgol Caerdydd eleni. Er bod y Cynllun yn cyfrannu at gyflog rhai o'r staff dylid tynnu sylw at y ffaith bod rhieni'r plant yn talu mwyafrif y costau staffio drwy dalu swm misol o \$225 ( pesos). Dengys hyn sut mae'r Cynllun wedi ysgogi perchnogaeth leol o sefydliadau fel yr Ysgol Feithrin ac yn argoeli'n dda at sicrhau bod y datblygiadau hyn yn hunangynhaliol yn y pendraw.

Ar hyn o bryd cynhelir dosbarthiadau ar 3 lefel ;

Cylch Ti a Fi    13 nawr            19 rhestr aros

2-3oed            16                            9 rhestr aros

4-5 ( Derbyn ) 14

Dengys y tabl uchod y potensial am sefydlu ysgol gynradd ddwyieithog wrth ystyried y niferoedd ar y rhestr aros. Er bod y fath sefyllfa gyda gormod o alw a nifer gyfyngedig o leoedd , gwaetha'r modd , yn rhy gyfarwydd o lawer i ni yng Nghymru dylid croesawu hyn yn yr achos yma. Rydym yn sôn am gymuned ar ochr arall y byd lle nad oes statws swyddogol gan yr iaith Gymraeg. Dylid dathlu y fath gefnogaeth anhygoel ac anelu at hwyluso'r broses o sefydlu ysgol gynradd ddwyieithog yn Gaiman.

## **GWAITH MEITHRIN YN YR ANDES**

Arsylwyd sesiynau yn Ysgol Feithrin Trevelin gyda 2 grŵp sef plant 3 oed a phlant 4 – 5 oed.

Dysgwyd y ddwy wers gan Jessica Jones a Sara Borda Green oedd newydd ddychwelyd i Drevelin ar ôl iddi dderbyn nawdd gan y Cynllun i fynychu cwrs haf dwys ( Uwch 2 a Gloywi ) Prifysgol Caerdydd am gyfnod o 5 wythnos ym mis Gorffennaf ac Awst. Ymdrechodd y ddwy athrawes i ddefnyddio'r Gymraeg mor aml â phosib gyda'r plant ac mae'n ddifyr weithiau sylwi ar y ffaith bod plant yn dysgu iaith ( e.e. Gaf i fisgedi ?) yn gyflym iawn pan fyddant eisiau rhywbeth ! Roedd y sesiwn gyda'r grŵp iau yn dda iawn gyda llawer o amrywiaeth gan gynnwys gwaith gwyllo a deall ac roedd yn amlwg bod y wers wedi'i chynllunio'n ofalus iawn i sicrhau bod y plant yn dysgu ac atgyfnerthu eitemau ieithyddol wrth iddynt gael hwyl. 4 plentyn oedd yn y sesiwn ar gyfer plant 4-5 oed a 5 yn y sesiwn ar gyfer plant 3 oed.

Niferoedd gweddol fach ond rhaid canmol yr athrawesau am eu proffesiynoldeb a chynllunio gofalus. Yn wir mae hyn yn pwysleisio'r angen i'r Cynllun gefnogi ymdrechion y pwyllgor lleol i sefydlu ysgol gynradd yn Nhrevelin. Gyfagos a'r ysgol feithrin mae adeilad modern yr ysgol gyfrwng Sbaeneg ac mae hyn yn tanlinellu'r angen i adeiladu ysgol bwrpasol

gyda chyfleusterau cyfoes fydd yn denu rhagor o blant at dderbyn addysg ddwyieithog. Yn ôl y pwyllgor lleol does dim prinder o bobl a fyddai'n fodlon anfon eu plant i'r fath ysgol felly rhaid cefnogi eu hymdrechion i wireddu breuddwyd a fyddai'n trawsnewid tynged yr iaith yn ardal Trevelin.



### **ADRODDIAD YSGOL YR HENDRE- TRELEW 2013**

Ysgol yr Hendre Trelew yw'r unig ysgol ddwyieithog Gymraeg a Sbaeneg yn y byd hyd yn hyn. Agorwyd hi ym mis Mawrth 2006.

Mae 95 o blant yn mynychu Ysgol yr Hendre eleni, 34 yn yr ysgol feithrin a 61 yn yr ysgol gynradd. Y llynedd, gorffennodd y 5 plentyn cyntaf eu haddysg cynradd.

Mae dau adeilad gan yr Ysgol, mae un yn stryd Moreno yng nghanol y dref, y sefydliad gwreiddiol, a'r llall, yn stryd Rivadavia a Moriah, ar bwys Capel Moriah. Mae'r costau misol wedi codi llawer ers mis Mai 2012 pan agorwyd yr adeilad newydd.

Ers dechrau'r flwyddyn, yn dilyn trafodaethau cadarnhaol gyda Cydlynnydd Dysgu'r Cynllun , mae'r ysgol wedi penderfynu gwahanu'r ddwy iaith felly cynhelir dosbarthiadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y bore ar gyfer Blwyddyn 1 a 2 a'r dosbarthiadau yn Sbaeneg yn y prynhawn yn adeilad Stryd Moreno, a'r dosbarthiadau yn Gymraeg yn ystod y prynhawn ar gyfer Blwyddyn 3, 4 5 a 6 a'r rhai yn Sbaeneg yn ystod y bore yn adeilad Stryd Rivadavia.

Mae 24 o weithwyr yn yr ysgol, gan gynnwys athrawon, athrawon pynciau arbennig, gofawyr, dwy ysgrifenyddes a Phennaeth. Buasai'n well ganddynt gael mwy o weithwyr, yn

enwedig rhai sydd yn siarad Cymraeg, ond eto, oherwydd y sefyllfa ariannol, mae hyn yn amhosib ar y foment.

Mae Llywodraeth Chubut yn cyfrannu drwy secondio 3 athro i'r ysgol a thalu 3 athro.

Mae'r Prosiect Dysgu Cymraeg ym Mhatagonia yn cyfrannu cyflog athro sy'n addysgu un grŵp o blant, sef dosbarth 3 a 4 oed y prynhawn. Drwy wneud hyn mae'r prosiect yn cyfrannu 1% o gostau'r ysgol.

*#1 Eleni mae athrawon y Cynllun /swyddogion Menter Patagonia yn cyfrannu fel a ganlyn ;*

*Dydd Mercher*

*09.00-11.00 Dwy awr o gefnogaeth yn y dosbarth meithrin (Ysgol Yr Hendre Moriah )Menter Patagonia*

*17.30-19.00 Ôl-Feithrin Trelew Ysgol Yr Hendre Moreno*

*Dydd Gwener*

*12.30-14.00 Awr chware Plant Iau (Ysgol Yr Hendre Moriah) Menter Patagonia*

*13.30-15.00 Cynorthwyo Côr (Menter Patagonia)*

*17.30-19.00 Ôl-Feithrin Trelew Ysgol yr Hendre Moreno.*

Ers tair blynedd ac yn unol ag awgrym y Cynllun, mae Cylch Cymraeg Trelew, yn cyflogi athrawes o Gymru er mwyn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff ei chostau i gyd eu talu, gan gynnwys ei thaith o Gymru i Drelew ac yn ôl, yswiriant, llety a chyflog.

Ymysg y staff mae Judith Jones, Romina Herrera ac Alcira Williams yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Aeth y tair ohonynt i Gymru i wella eu Cymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf diolch i'r Cynllun. Nid yw Shirley James sydd hefyd wedi bod i Gymru dan nawdd y Cynllun, yn addysgu yn y dosbarth ar hyn o bryd oherwydd problem â'i llais. Fodd bynnag, mae hi'n gweithio fel ysgrifenyddes yn yr ysgol. Aeth Norma Price, un o ofalwyr yr ysgol, i Gymru eleni i arsylwi diolch i'r Cynllun hefyd, ond oherwydd problemau ariannol yr ysgol, nid yw wedi dechrau ei gwaith newydd yn y dosbarth yn swyddogol, er ei bod hi'n cyfrannu pan mae'n gallu. Roedd cefnogi gwaith Norma yn bwysig gan ei bod yn siarad Cymraeg a'r plant yn ystod amseroedd chwarae a chinio, rhywbeth sydd ddim yn digwydd mewn llawer o ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghymru.

## Ôl Feithrin a Gwaith Plant

Yn Nhrelew Ysgol Yr Hendre sy'n gofalu am yr plant hyn ac mae athrawon y Cynllun yn cynnal nifer o sesiynau eraill yn ystod yr wythnos. *Gweler #1 uchod.*

Yn Gaiman gwelir sefyllfa wahanol. Mae nifer o blant wedi derbyn addysg feithrin drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n defnyddio'r Gymraeg gartref. Gan nad oes addysg gynradd eto yn Gaiman aiff y plant hyn i ysgolion cyfrwng Sbaeneg ac o ganlyniad maent mewn peryg o golli'r iaith oni bai am y sesiynau hyn. Arsylwais sesiynau rhagorol gan Sandra de Pol gyda phlant rhwng 7-11 oed. Er yr anawsterau amlwg o ran oedran, gallu ac ati llwyddodd i gynnal sesiynau ardderchog gyda chymaint o amrywiaeth a defnydd o weithgareddau a thechnoleg. Profwyd sgiliau Siarad, Darllen, Gwrando/Gwyllo a Deall ac Ysgrifennu. Heb os mae'r gwaith hwn yn holl bwysig ar hyn o bryd ac yn tanlinellu'r angen i benodi arbenigwr/wraig profiadol ar lefelau meithrin/cynradd yn ystod 2014. Dim ond person profiadol yn y meysydd hyn fyddai'n medru cynnal sesiynau fydd yn diwallu anghenion ieithyddol unigolion sydd ag anghenion a chefnidiroedd mor wahanol i'w gilydd.

Cynhelir grŵp arall yn Nolavon ( Coleg William Morris ) bob dydd Llun rhwng 18.00-19.30 gydag 12 o blant rhwng 2-11 oed. Eto er y ffaith bod rhaid i'r un athrawes wahaniaethu ar sail oedran, cefndir ( doedd neb o deulu Cymraeg ) a gallu llwyddodd i gynnal sesiynau ardderchog gyda nodau addysgol pendant wrth ddefnyddio technegau gwahanol a thechnoleg e.e. gweithgareddau ar lein ( Sali Mali ) gan ddefnyddio gliniadur oherwydd nad yw'r fath offer ar gael yn y Coleg.

Pwysleisiwyd ynganiad a thynnwyd sylw at seiniau pwysig trwy eu hamgylchynu o fewn geiriau ar y bwrdd gwyn e.e. cylch o gwmpas **ch** yn y gair Mercher – tynnu sylw at **ll** ac **w**. Gwelwyd yr angen i ddysgu ynganiad ar sawl lefel ac ystod oedran ac mae hyn yn rhywbeth y dylem ei bwysleisio wrth baratoi athrawon newydd yn y dyfodol.

Yn yr Andes arsylwyd gwersi ar gyfer plant 8-11 oed ac un arall ar gyfer plant iau.

Yn y sesiwn ar gyfer plant iau roedd yr athrawes o Gymru wedi dysgu gwers ardderchog , llawn amrywiaeth. Defnyddiwyd cardiau, cyflwyniad powerpoint, ffeiliau sain ac ati mewn ffordd greadigol a diddorol iawn.

Eto fel yn Nolavon ( gweler uchod ) roedd angen sicrhau nad oedd ymyrraeth Sbaeneg y plant yn effeithio ar eu hynganiad o eiriau Cymraeg e.e. ynganu **'ll'** fel **'sh'** yn Castellano.

Jessica Jones ddysgodd y sesiwn ar gyfer plant 11 oed. Roedd pawb ond un wedi mynychu'r ysgol feithrin Gymraeg ac wrth gwrs mae pob un ohonynt yn derbyn addysgu gyfrwng Sbaeneg. Er hynny roedd safon eu Cymraeg yn dda iawn ac ymarferwyd sgiliau pob dydd

mewn ffordd ystyrllon e.e. darganfod ble roedd pawb yn byw a dod o hyd i leoliadau gwahanol gan ddefnyddio map o Drevelin.

## **Dosbarthiadau yn yr ysgolion lleol gan gynnwys plant yn eu harddegau**

Dysgir y Gymraeg mewn sawl ysgol cyfrwng Sbaeneg e.e. Coleg Camwy , Escuela Bryn Gwyn, Escuela Aliwen, Escuela 24, Escuela 166.

Arsylwyd gwersi yn Ysgol Bryn Gwyn a Choleg Camwy ac Ysgol 166. Oherwydd gwyliau cyhoeddus nid oedd modd arsylwi yn Ysgol 24 ac oherwydd salwch yr athrawes yn Ysgol Aliwen. Yn Ysgol Aliwen rydym wedi gweld twf yn yr oriau cyswllt eleni sydd yn hynod galonogol.

Arsylwyd Damaris Vasquez yn Ysgol Bryn Gwyn, Ana Chiabrande, Rebeca Henry a Sandra de Pol yng Ngholeg Camwy ac Eluned Evans a Jessica Jones yn Ysgol 166.

Mae Damaris yn athrawes ifanc, addawol sy'n hyfforddi i fod yn athrawes drwyddedig ar hyn o bryd. Yn ei dosbarthiadau gyda Blwyddyn 2 a 3 ceisiodd ennyn diddordeb y plant gan amrywio dulliau a pharatoi'n drylwyr. Yn sicr roedd y plant yn mwynhau'r gwersi yn fawr ac yn fodlon iawn cyfathrebu yn Gymraeg a'r arsylwr. Wrth ddatblygu'r gwaith hwn mae angen sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud o flwyddyn i flwyddyn a bod sgiliau llafar y plant yn gwella ac yn cael eu hystyngtu.

Yng Ngholeg Camwy roedd Ana Chiabrande'n cyflenwi grwpiau Blwyddyn 1,2 a 3 Caren Jones, athrawes arferol grwpiau Aliwen, yn ystod ei chyfnod salwch. Blwyddyn 1- 3 yw Cyfnod Allweddol 3 yng Nghymru gan mai ysgol uwchradd yw Coleg Camwy. Er nad athrawes uwchradd yw Ana mae hi wedi trosglwyddo'r hyn a ddysgodd yn ystod ei sesiynau hyfforddiant Cymraeg i Oedolion a chyfnod arsylwi yng Nghanolfan Cymraeg i Oedolion, Prifysgol Caerdydd dan nawdd y Cynllun yn effeithiol iawn ac roedd ei gwersi llawn cystal â'r hyn a welir mewn sawl dosbarth ail iaith yng Nghymru.

Mae Rebeca Henry yn dysgu grwpiau Blwyddyn 4, 5 a 6 yng Ngholeg Camwy. Cyfnod allweddol 4 yw hyn yng Nghymru sef Blwyddyn 10-12. Mae pob plentyn yng Ngholeg Camwy yn derbyn gwersi Cymraeg yn ystod Blwyddyn 1, 2 a 3 (Cyfnod Allweddol 3 yng Nghymru) gyda'r opsiwn o barhau i astudio yn ystod blynyddoedd 10-12. Y llynedd roedd 16 wedi dewis astudio'r Gymraeg ym Blwyddyn 10 ac eleni mae 34 sydd yn gynnydd sylweddol. 14 sy'n astudio ym Blwyddyn 11 ac 16 ym Blwyddyn 12. Defnyddir cwrs lyfr sy'n cyfuno elfennau o gwrs ail iaith o Gymru sef Taith Iaith gydag elfennau o Gwrs Wlpan Y Wladfa sef addasiad o Gwrs Wlpan ( Cymraeg i Oedolion ) Prifysgol Caerdydd. Gan addasu'r technegau a deunyddiau yn y fath ffordd mae'r gwersi'n ddiddorol, heriol ac yn llwyddo i wella sgiliau ieithyddol y bobl ifanc. Yn sicr roedd y sesiynau arsylwais yn llawn haeddu graddau 'Rhagorol' ac yn dystiolaeth o allu'r athrawes.

Mae Sandra de Pol yn dysgu grŵp arall a enwir ' Grŵp Yr Arddgau ' yng Ngholeg Camwy.

Mae 10 o blant rhwng 12-16 oed. Mae'r rhai wedi derbyn addysg yn Ysgol Yr Hendre a dwy ohonynt newydd fod draw yng Nghymru gyda thaith Ysgol Yr Hendre a drefnwyd gan Yr Urdd. Dosbarth i bobl ifainc gyda thipyn o gefndir Cymraeg ydyw.

Mae Sandra wedi addasu deunyddiau o Cyfnod Allweddol 2 a Cyfnod Allweddol 3 a Cwrs Sylfaen Cymraeg i Oedolion er mwyn sicrhau bod yr iaith a themâu yn berthnasol i'r disgyblion ac yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd ieithyddol.

e.e. roedd y themâu yn cynnwys ailgylchu, ysgrifennu cerdyn post ( ymarfer ystyrllon i'r rhai aeth i Gymru ) , straeon traddodiadol o Gymru, bwyd, gwaith darllen ac ymarfer ar gyfer cystadleuaeth ysgrifennu Eisteddfod yr Urdd sef 'Fy hoff gerddoriaeth'.

## **YSGOL 166**

Arsylwyd sesiynau yn Ysgol 166 yn Nhrevelin, Yr Andes gydag Eluned Evans, yr athrawes o Gymru yn yr ardal honno a Jessica Jones, athrawes leol sydd wedi bod i Gymru oherwydd y Cynllun ar gyrsiau iaith ac i arsylwi. Arsylwyd sesiynau gyda phlant 6 – 8 oed ac 8 – 11 oed. Defnyddiwyd adnoddau gwahanol gan gynnwys cardiau fflach, Y Geiriadur Lliwgar a thafleuni er mwyn sicrhau bod y gwersi'n ddiddorol i'r plant. Ymarferwyd cyfarchion, lliwiau, mynegi hoffter, rhifo a sgiliau ysgrifennu. Er bod elfennau tebyg yn y ddwy wers mae Cynllun Gwaith yn bodoli ar gyfer pob blwyddyn a gwelwyd tystiolaeth o hynny wrth i'r athrawon gyflwyno'r pwnc 'Y Siop Ddillad?' gyda'r grŵp hŷn.

I rywun sy'n gyfarwydd a safonau ymddygiad plant yng Nghymru mae gweld ymddygiad plant mewn cyd-destun dosbarth yn Yr Ariannin yn dipyn o agoriad llygad er bod y plant yn ddigon hapus i gyfranogi ac maent yn ateb cwestiynau'n frwd iawn.

Mae diffyg rheolaeth dosbarth yn ogystal â'r ystafelloedd dysgu moel sydd heb lawer o ddeunyddiau gweledol diddorol yn creu sefyllfa heriol i athrawon yn yr ysgolion cyfrwng Sbaeneg. Fodd bynnag oherwydd dulliau'r athrawon Cymraeg ymddengys bod safon a chyrhaeddiadau'r dosbarthiadau Cymraeg yn well na'r dosbarthiadau Saesneg fel y gwelir yn Gaiman lle mae safon iaith y plant yn y Gymraeg yn well nag yn Saesneg er eu bod yn derbyn llawr mwy o oriau cyswllt yn yr iaith honno.

Un sesiwn sy'n haeddu sylw arbennig yn Yr Andes yw cwrs Gladys Jones yn Ysgol Gymraeg yr Andes yn Esquel. Cynhelir y gwersi ddwywaith yr wythnos ar nosweithiau Mercher a Gwener rhwng 18.30-20.00. Mae 3 bachgen ifanc rhwng 13 – 15 oed yn mynychu'r cwrs hwn ac mae eu dealltwriaeth o'r Gymraeg yn dda iawn ac mae un bron yn rhugl i bob pwrpas.

Defnyddiwyd Cwrs Wlpan Prifysgol Caerdydd, sef cwrs i oedolion, mewn ffordd oedd yn apelio at y bobl ifainc hyn sydd yn profi gwerth defnyddio tiwtoriaid lleol fel Gladys sydd yn athrawes brofiadol iawn. Defnyddiwyd ac addaswyd dulliau'r Wlpan traddodiadol gan gynnwys cofio deialogau ( sydd yn haws i bobl ifainc nag i'r rhan fwyaf o oedolion yn ôl tystiolaeth y wers hon ) mewn ffordd broffesiynol ac effeithiol.

Yr hyn sydd fwyaf anhygoel yw bob y bobl ifainc hyn yn fodlon dod ddwywaith yr wythnos, yn eu hamser eu hunain, er mwyn dysgu'r Gymraeg. A fyddai'r fath beth yn digwydd yng Nghymru tybed ?



*Dosbarth Cymraeg Jessica Jones Yn Ysgol 166 Trevelin*



Eisteddfod Yr Ifainc, Gaiman

## Oedolion ac Arholiadau

### OEDOLION

Roeddem yn ffodus eleni bod modd i ni benodi tiwtor Cymraeg i oedolion profiadol i weithio yn Y Dyffryn. Ers blynyddoedd mae adroddiadau blynyddol y Cynllun wedi pwysleisio'r angen i roi hwb i waith gydag oedolion yn yr ardal honno. Penodwyd Rhisiart Arwel a Sandra de Pol i weithio yn Y Dyffryn gyda Rhisiart yn canolbwyntio ar waith gydag oedolion a Sandra ar weithio gyda phlant. Fodd bynnag mae'r ddau yn diwtoriaid Cymraeg i Oedolion profiadol ac mae Sandra hefyd wedi dysgu sawl grŵp ac wedi cyfrannu tuag at y cynnydd amlwg yn yr ardal. Mae 126 o oedolion yn y Dyffryn yn dysgu'r iaith i gymharu a 73 yn 2012 ac mae mwy o gyrsiau ar lefel Uwch 2 ( Meistroli ) a Hyfedredd. Yn 2012 roedd 43 o oedolion yn dysgu yn Gaiman ac eleni mae 70. Yn 2012 roedd 30 o oedolion yn dysgu yn Nhrelew ac eleni 56. Mae hyn yn gynnydd sylweddol.

Mae'r ffaith bod un tiwtor CiO profiadol gyda chymorth tiwtor profiadol arall wedi ymgymryd â'r gwaith pwysig hwn wedi gwneud gwahaniaeth amlwg nid yn unig i'r niferoedd ond i safon yr addysgu.

Er bod ffigurau Yr Andes wedi gostwng i 48 o ddysgwyr o 64 y llynedd gwelwyd cynnydd trwy'r Wladfa i gyd gyda 174 o ddysgwyr i gymharu â 137 yn 2012.

Arsylwyd sesiynau ar lefelau gwahanol sef Cyn-fynediad, Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch a Hyfedredd.

Roedd safon yr addysgu yn sesiynau'r ddau diwtor o Gymru naill ai'n Dda neu'n Rhagorol ar bob un o'r lefelau uchod.

Dysgwyd y cyrsiau Wlpan ( Mynediad a Sylfaen ) a Phellach ( Canolradd ) yn effeithiol iawn gan ddefnyddio dulliau amrywiol a chryn dipyn o bwyslais ar ynganu'n gywir. Roedd safon yr addysgu ar y cyrsiau Uwch/Hyfedredd yn ardderchog hefyd ac roedd y tiwtoriaid yn creu eu deunyddiau eu hunain yn aml iawn ac heb os nac oni bai mae'r ffaith bod y ddau yn medru'r Sbaeneg yn rhugl wedi bod o gymorth mawr iddynt wrth wneud hynny.

Cynhaliwyd sesiynau gwreiddiol a diddorol tu hwnt gyda grwpiau trafod Dolavon a Gaiman ac eto gwelir yn ystod y sesiynau hyn pa mor bwysig yw'r Cynllun i barhad y Gymraeg, hyd yn oed i'r siaradwyr rhugl, gan gadw'r iaith yn fyw a pherthnasol iddynt.

Uchafbwynt yr arsylwi oedd gwersi i 8 o staff yn Swyddfa Dwristiaeth Gaiman. Cyn iddynt adael Cymru gofynnais i'r athrawon fod yn rhagweithiol a chwilio am gyfleoedd i gynnal cyrsiau mewn gweithleoedd. Gwnaethant hyn gyda'r cwrs uchod a gyda chwrs yn Ysbyty Gaiman.

Dysgodd y ddau diwtor ar y cyd ac yn fy marn broffesiynol dyma un o'r dosbarthiadau gorau i mi ei arsylwi erioed yn Y Wladfa neu yng Nghymru. Mae Rhisiart a Sandra wedi addasu a



theilwra cyrsiau presennol yn ogystal â chyflwyno eitemau newydd ac wedi llwyddo creu cwrs Cymraeg/Sbaeneg gwreiddiol ac effeithiol sy'n dysgu ac ymarfer sgiliau ystyrlon a pherthnasol i weithwyr y swyddfa. *Gweler Atodiad 2 Cwrs Swyddfa Dwristiaeth Gaiman.*

Nid oes amheuaeth ynglŷn â llwyddiant y cwrs. Yn wreiddiol cwrs byr oedd e ond roedd e mor boblogaidd gyda'r grŵp o weithwyr ifanc gofynnwyd i'r tiwtoriaid barhau gyda'r gwaith. Yn ystod yr wythnos cyn yr arsylwad mae'n debyg bod cwpl Cymraeg eu hiaith o Gymru wedi ymweld a'r Swyddfa Dwristiaeth ac roedd y staff wedi defnyddio'r Gymraeg gyda nhw. Fel yng Nghymru mae profi gwerth economaidd yr iaith yn arf marchnata hynod o bwysig.

Arsylwyd gwersi gan nifer o diwtoriaid lleol e.e. Juan Davies yn Gaiman a Patricia Ramos yn Nolavon. Daeth Juan i Gymru i arsylwi yng Nghanolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol Caerdydd yn 2012 a Patricia eleni yn 2013.

Roedd gwers Patricia o safon uchel iawn ac roedd yn wych gweld ei bod hi wedi dysgu llawer yn ystod ei chyfnod yng Nghymru. Eto roedd y wers hon llawn cystal ag unrhyw beth fyddai arsylwr yn disgwyl ei weld yng Nghymru.

Mae safon dysgwyr Y Wladfa hefyd yn uchel, yn well na phobl ar yr un lefel yng Nghymru yn aml iawn. Ar y cyfan maent yn fodlon cyfranogi mewn ffordd bwrpasol a chadarnhaol. Oherwydd gwaith cenhadu a datblygu gwych gan Rhisiart Arwel ymddengys bydd nifer ohonynt yn sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC yn 2014 gyda, gobeithio, mwy nag un yn sefyll Arholiad Lefel Uwch. Dylai'r gwaith paratoi trylwyr a manwl a welwyd, mewn sesiynau ar sawl lefel, ddwyn ffrwyth y flwyddyn nesaf. Disgwylir sawl Rhagoriaeth a Gradd 'A' os yw'r ymgeiswyr yn perfformio fel y gwnaethant yn ystod yr arsylwadau. Yn wir roedd gallu rhai ohonynt i drafod llenyddiaeth yn well o lawer na dysgwyr ar yr un lefel yng Nghymru.

Arsylwyd sawl sesiwn i oedolion yn Yr Andes gan gynnwys Wlpan 1 ( Mynediad ), Wlpan 2 ( Sylfaen ), Uwch 1 ac Uwch 2 ( Meistroli ).

Eto gwelwyd gwerth cyflogi athrawon profiadol o Gymru yn ystod gwersi Wlpan ac Uwch Eluned Evans. Roedd y ddwy wers yn dda iawn , yn arbennig y sesiwn Uwch 1. Yn fy marn i dim ond athrawon cymwys fyddai'n medru cynnal sesiynau o'r fath safon ac mae'n hynod o bwysig ein bod fel Cynllun yn cadw at y polisi o benodi addysgwyr proffesiynol lle mae hynny yn bosib hyd yn oed yn y sefyllfa bresennol gyda swyddogion yn gorfod rhannu eu hamser rhwng gwaith addysgu a gwaith cymdeithasoli iaith Menter Patagonia.

Roedd yn arbennig o dda hefyd i weld datblygiad cadarnhaol iawn Lilita Melnik, tiwtor lleol a ddaeth i Gymru ar ddechrau 2013 i arsylwi yng Nghanolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg, Prifysgol Caerdydd. Eto fel yn achos Patricia Ramos yn Nolavon, roedd yn amlwg bod Lilita wedi gwrandao ac wedi dysgu llawer yn ystod ei chyfnod arsylwi yng Nghymru. Mae hyn heb os yn pwysleisio pa mor bwysig yw cynnig y fath gyfleoedd i athrawon Y Wladfa a gobeithio y bydd modd i hyn barhau yn y dyfodol.

Yn olaf credaf fod angen dweud gair am wers y Cydlynedd Dysgu, Clare Vaughan a ddysgodd sesiwn Uwch 2 ( Meistroli ) yn ystod y cyfnod arsylwi. Fel llawer o drefnyddion yng Nghymru does dim amser ganddi i dysgu llawer oherwydd ymrwymadau ei gwaith cydlynu. Fodd bynnag credaf ei bod yn holl bwysig i'r fath berson fynnu parch proffesiynol ei gyddiwtoriaid gan arwain trwy esiampl fel petai. Byddai'r sesiwn arsylwais wedi llawn haeddu gradd 'Rhagorol' yng Nghymru oherwydd amrywiaeth y dulliau ( gan gynnwys gwaith gwyllo a deall dyfeisgar ) , ystod y cynnwys, y ffaith bod sgwrs gydlynus wedi'i chynnal ar sawl thema mewn ffordd gwbl ddiymdrech drwy gydol y wers ac yn y blaen. Mae tiwtoriaid Y Wladfa'n ffodus i dderbyn cyngor ac arweiniad gan athrawes mor alluog ac effeithiol.



Rhisiart Arwel a Sandra de Pol ( o'r dde ) gyda dysgwyr Swyddfa Dwristiaeth Gaiman

## ARHOLIADAU: Canlyniadau ac Adroddiad gan y Cydlynnydd Dysgu

<b>CANLYNIADAU'R WLADFA</b>			
<b>Arholiadau CBAC 2013</b>			
<b>SYLFAEN</b>			
<b>Enw</b>	<b>Cyfenw</b>	<b>Lleoliad</b>	<b>Canlyniad</b>
Liliana	Evans	Gaiman	Llwyddiant
Grisel	Roberts	La Plata	Rhagoriaeth
Julio Cesar	Urria	Gaiman	Llwyddiant
<i>(mae'n bosib ennill Rhagoriaeth neu Llwyddiant yn yr arholiad hwn)</i>			
<b>MYNEDIAD</b>			
Griselda	Agesta Jones	Comodoro Rivadavia	Llwyddo
Julieta	Cruz	Comodoro Rivadavia	Llwyddo
Jorge	Davies	La Plata	Llwyddo
Camila	Freeman	La Plata	Llwyddo
Sabine	Herfert	Mendoza	Llwyddo
Monica Mariel	Jones	Trelew	Llwyddo
Ivana Mariel	Mansilla	Trevelin	Llwyddo
Carina	Medina	Trelew	Llwyddo
Vilma	Thomas	Mendoza	Llwyddo
Dario	Trombotto	Mendoza	Llwyddo
Nelida Alicia	Woodley	Comodoro Rivadavia	Llwyddo
Beatriz Maria	Palomino	Trevelin	Llwyddo
<i>(Does dim graddau yn yr arholiad yma dim ond Llwyddo neu Methu)</i>			

Mae myfyrwyr yng Nghymru weithiau yn cwyno os oes rhaid iddyn nhw deithio am hanner awr i sefyll arholiad – wel mae myfyrwyr yr Ariannin yn gryfach! Daeth 12 o bobl i Ganolfan Esquel i sefyll yr arholiad MYNEDIAD (i bobl sy wedi gorffen Unedau 1 – 30 o'r cwrs Wlpan) ac aeth 3 arall i Ysgol Gerdd y Gaiman i sefyll yr arholiad SYLFAEN (i bobl sy wedi gorffen Unedau 1 – 60 o'r cwrs Wlpan). Y peth anhygoel ydy bod rhai wedi teithio o Drelew – digon pell – rhai o Gomodoro Rivadavia, rhai o Mendoza ac hyd yn oed rhai o La Plata (heb anghofio y ddwy ddaeth yr holl ffordd o Drevelin!). Cyfanswm o tua 366 awr o deithio i sefyll arholiad Cymraeg! Os ydych chi'n darllen Llais yr Andes yn eich cartref yng Nghymru bydd rhaid i chi edrych ar fap yr Ariannin os ydych chi eisiau gweld pa mor bell teithion nhw.

Mae'r Ariannin yn wlad fawr iawn gyda dros 5,000 kilometr o'r gogledd i'r de. Mae talaith Chubut lle setlodd y Cymry cyntaf yn fwy na thair gwaith arwynebedd Cymru! Yn gyntaf cysylltodd Dario Trombotto o Mendoza i weld os oedd yn bosib iddo fo, a'i wraig, sy'n dod yn wreiddiol o'r Almaen, a ffrind arall gofrestru ac maen nhw'n byw yn Mendoza 1,500 km i ffwrdd o Esquel, o leiaf 17 awr mewn car! Wedyn cysylltodd Grisel Roberts o ddinas La Plata ger Buenos Aires i ddweud bod ei myfyrwyr hi eisiau sefyll arholiad! Mae La Plata yn 1,875 km o Esquel, rhyw 21 awr mewn car – a does dim car gan y myfyrwyr felly daethon nhw ar y

bws! Pan gysylltodd Luis Owen o Gomodoro Rivadavia (575 km o Esquel) â merched Trelew (603km) doedd dim syndod!

Roedd merched Comodoro wedi teithio dros nos ar y bws, wedi cyrraedd am 6 o'r gloch y bore, cael brecwast ac wedyn sefyll yr arholiad cyn aros am y bws am 9.00 y nos i fynd yn ôl i Gomodoro y noson honno. Faint o ddysgwyr Cymru fyddai'n fodlon gwneud hynny tybed?

Felly dyma fyfyrwyr Patagonia yn dangos pa mor frwdfrydig ydyn nhw dros ddysgu yr iaith Gymraeg, iaith Cymru ac i drefnydd y Ganolfan sydd yn gweithio ar ran y Cynllun Dysgu Cymraeg yn y Wladfa roedd yn brofiad hyfryd. Llongyfarchiadau i bawb ar eu gwaith caled, diolch i'r tiwtoriaid am eu gwaith paratoi a gobeithio bydd yr arholwyr yn cytuno bod chi'n haeddu pasio, bob un ohonoch chi! **Clare Vaughan, Cydlynnydd Dysgu**



## MENTER PATAGONIA

Aethpwyd ati yn 2009 i osod amcanion Menter Patagonia sef:

1. Rhaid wrth ymdrechion gwirioneddol i normaleiddio defnydd o'r iaith mewn trawstoriad o sefyllfaoedd cymdeithasol – ymestyn ei defnydd cymdeithasol.
2. Dylid anelu at gynnal amrywiaeth eang o sefyllfaoedd, achlysuron a gweithgareddau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg – rhwng 10 a 13 awr yr wythnos ym mhob lleoliad - rhwng 20 ac 26 awr yr wythnos o weithgareddau yn Nyffryn Camwy a chyfanswm cyfatebol yng Ngodre'r Andes. Gellid awgrymu gweithgareddau fel a ganlyn.
3. Gweithgarwch ar gyfer plant meithrin a'u rhieni. Gallai hyn fod yn gyfle i ennyn diddordeb yn y rhieni a'u cael i ddsbarth Cymraeg – o leiaf un sesiwn yr wythnos.
4. Gweithgareddau ar gyfer plant cynradd – chwaraeon, crefftau, peintio a gwaith llaw, gemau, natur a'r amgylchedd, dawnsio gwerin, grŵp canu/ actio, grwpiau chwarae fore Sadwrn, clybiau gwyliau, hobiau ac ati. (dwy haen oedran yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos)
5. Gweithgareddau ar gyfer plant oedran ysgol eilradd - Aelwyd yr Urdd, chwaraeon, gweithgareddau awyr agored, gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau cymdeithasol. (dwy sesiwn yr wythnos os yn bosibl).
6. Gweithgareddau cymdeithasol rheolaidd ar gyfer oedolion. – cwis, sioe ffasiwn, coginio, blasu gwahanol fathau o fwyd ,grwpiau trafod neu ddadlau, grwpiau sgwrsio ,grwpiau gwahanol hobiau ,gwersi cyfrifiaduron ar gyfer dechreuwyr, clybiau cerdded, seiclo, mynydda, sgïo, clwb cinio, nosweithiau llawen, sgysiau a darlithoedd, dawnsio gwerin, picnic, gwibdeithiau, nosweithiau ffilmiau ac ati.
7. Gweithio'n glos â mudiadau lleol Cymreig i'w hysbrydoli - megis yr *isteddfod*, *cyrddau cystadleuol*, *y capeli*.
8. Ceisio ymestyn defnydd gweledol o'r Gymraeg yn lleol. – y radio, yr amgueddfeydd ac ati.

Mae digon o gyllid gan y Cynllun i gyflogi un person ar gyfer gweithgareddau Menter Patagonia. Felly er mwyn sicrhau bydd presenoldeb gan y Fenter yn y ddwy ardal hanner swydd sydd yn y ddau ddalgylch mewn gwirionedd.

Treulir hanner amser Eluned Evans ar waith y Fenter yn Yr Andes a 25% o amser Rhisiart Arwel a 25% o amser Sandra de Pol yn Y Dyffryn.

## **Adroddiad Cynnydd Gwaith Menter Patagonia yn Y Dyffryn ( hyd at Awst 2013 )**

### **Ebrill**

5ed: Sandra a Rhisiart yn siarad ar raglen Tegai ar orsaf Radio Chubut am y cynllun a'r dosbarthiadau.

6ed: Ffair Amaethyddol, yn y Gimnasio yn y Gaiman. Sgwrsio gyda stondinwyr a'r cyhoedd yn Gymraeg am y dosbarthiadau trwy'r dydd.

13eg: Swper Dewi Sant yn Nhrelew - cyfle i farchnata'r dosbarthiadau Cymraeg gyda thrigolion Trelew.

20fed: Cymanfa Ganu fisol Dewi Sant yng nghapel Carmel, Dolavon. Cymryd rhan yn y gwasanaeth ac annerch y gynulleidfa am y dosbarthiadau Cymraeg.

30ain: Digwyddiad Cymdeithasol gan Fenter Patagonia ym Mhlas y Coed, Y Gaiman. Noson blasu Cyri - coginio, sgwrsio, gemau a chanu cynulleidfaol -rhyw 45 yn bresennol.

### **Mai**

11eg: Gymanfa Ganu fisol Dewi Sant yng Nghapel Nasareth, Drofa Dulog, y Dyffryn. Cymdeithasu, a sgwrsio yn Gymraeg.

18fed: Micro Eisteddfod Ysgol Camwy yn Neuadd Ysgol 100, Beirniadu yn yr Eisteddfod ac yn cymdeithasu trwy'r dydd.

25ain: Defod dathliadau Mai 25ain yn y Gimnasio, y Gaiman.

25ain: Te dathliad Mai 25ain ynghyd â dathlu dyddiad gadael y Mimosa o Lerpwl ym 1865. Cymdeithasu yn Gymraeg.

26ain: Capel Bethel, Y Gaiman Cyfarfod Gweddi misol yn Gymraeg. Cymryd rhan yn y gwasanaeth.

### **Mehafin**

7fed: Mynychu cyngerdd corawl yn Theatr Verdi Trelew – Sandra yn cyflwyno yn y Gymraeg, cymdeithasu yn Gymraeg.

15fed: Gymanfa Ganu fisol Dewi Sant yng **Nghapel Nasareth, Drofa Dulog**, y Dyffryn. Cymdeithasu, a sgwrsio yn Gymraeg.

15fed: Mynychu Cyngerdd yn Theatr El Arbol, Trelew - cymdeithasu yn Gymraeg.

25ain: Noson Gymdeithasol Gymraeg yn Nhŷ Camwy i ffarwelio â Cinthia a Virginia wrth iddyn nhw adael am Gymru.

28ain: Noson Cawl a Chên, gan Fenter Patagonia yn neuadd Ysgol yr Hendre, Moriah. Coginio, canu a chymdeithasu yn Gymraeg. Rhyw 50 yn bresennol.

29ain: Mini Eisteddfod Dolavon. Mynychu a beirniadu drwy'r dydd - cymdeithasu yn Gymraeg.

30ain: Cyfarfod Gweddi Cymraeg misol yng Nghapel Bethel y Gaiman. Yn gyfrifol am drefnu'r holl wasanaeth, y cyfranwyr a chymryd rhan.

### **Gorffennaf**

6ed: Eisteddfod Mini Bethel, Capel Bethel y Gaiman. Yn bresennol ac yn beirniadu trwy'r dydd. Cymdeithasu yn Gymraeg.

23ain: Noson Gymdeithasol Gymraeg yn nhŷ Camwy i groesawu dau o fyfyrwyr meddygaeth i'r Dyffryn ar gyfnod profiad gwaith - Gwion a Tomos Williams.

27ain: Te Gŵyl y Glaniad Capel Bethel - Cymdeithasu a Rhisiart yn perfformio mewn cyngerdd i ddatlu'r digwyddiad yn y Capel newydd.

28ain: Te Gŵyl y Glaniad yn Ysgol yr Hendre, Moriah. Cymdeithasu â rhieni'r Ysgol a Rhisiart yn arwain côr yr Ysgol yn y cyngerdd ar ôl y te.

### **Awst**

3ydd. Eisteddfod Mimosa, Porth Madryn. Yn bresennol ac yn beirniadu trwy'r dydd - cymdeithasu yn Gymraeg.

10fed: Te Côr Ysgol Gerdd y Gaiman. Yn cynorthwyo gyda'r trefniadau ymarferol, yn perfformio gyda'r côr a Rhisiart yn chwarae gitâr yn y cyngerdd.

15fed: Noson Gemau a hwyl ym Mwyty Gwalia Lân, y Gaiman. Noson gymdeithasol er mwyn annog siarad Cymraeg - chwarae gemau geiriau er mwyn cynyddu gwybodaeth a sesiwn canu. Cyfle i groesawu Gareth Kiff (Cyfarwyddwr y Prosiect), ynghyd â Lucy Trotter (Aberystwyth) a Cinthia Zamarreno.

### **Yn ychwanegol/achlysurol:**

Cynorthwyo gyda côr Ysgol yr Hendre gyda phlant yr Ysgol bob bore Gwener, ac yn ychwanegol ar ddyddiau Mercher yn ôl y galw. Gweithgareddau chwarae gyda phlant lau ar foreau Mercher a'r plant hŷn amser cinio ddydd Gwener.

Mynychu ymarferion Côr Ysgol Gerdd y Gaiman bob nos Lun yn yr ysgol Gerdd. Cymdeithasu a siarad Cymraeg. Mae Rhisiart yn mynychu nosweithiau'r 'Bwthyn Bach' unwaith y mis - nosweithiau Asado i ddyddion - cymdeithasu a siarad Cymraeg ac annog pobl i fynychu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn y cylch.



*Ymweld â siaradwyr Cymraeg hŷn yn eu cartrefi (Eluned Evans ac Isaías Grandis)*



*Cyngerdd Hogia'r Wilber 17/5/13 Trefelin*





**Adroddiad Cynnydd Gwaith Menter Patagonia Yn Yr Andes ( hyd at Awst 2013)**

	<b>Digwyddiad</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Niferoedd</b>	<b>Sylwadau</b>
<b>Mawrth</b>	Cwrdd Diolchgarwch Capel Bethel, Trevelin	Dydd Sul, Mawrth 10fed	14	
<b>Ebrill</b>	Amy Dolben (gwirfoddolwraig) yn cyrraedd ac yn aros am fis	Dydd Iau, Ebrill 4ydd		Bu Amy'n gymorth mawr yn dechrau rhoi trefn ar y llyfrgell enfawr o fideos sy'n y Ganolfan-maent bellach yn barod i gael eu trosglwyddo i DVD
	Cwrdd Diolchgarwch Esquel	Dydd Sul, Ebrill 7fed	12	
	Sbort Sadwrn Esquel	Nos Sadwrn, Ebrill 13eg	18	Gemau dwl mewn timoedd a swper gyda'n gilydd
	Noson Sushi Trevelin	Nos Wener, Ebrill 19eg	11	Bwyta sushi, gwneud origami a chanu carioci
<b>Mai</b>	Noson Lawen yn Neuadd y dref, Trevelin	Nos Sadwrn, Mai 5ed	Llund y neuadd	Trefnu a chyflwyno'r noson gydag Isafas Grandis – cwmni 'Lighthouse Theatre' o Abertawe ac artistiaid lleol
	Oedfa yng Nghapel Bethel, Trevelin	Dydd Sul, Mai 19eg	7	
	Oedfa yng Nghapel Seion, Esquel	Dydd Sul, Mai 26ain	9	

<b>Mehefin</b>	Siôn a Siân Esquel	Nos Sadwrn, Mehefin 8fed	11	
	Pitsa a chwis Trevelin	Nos Fercher, Mehefn 19eg	18	Cyfle i ddymuno'n dda i Estela, Ivana a Sara cyn iddyn nhw fynd i Gymru
	Oedfa yng Nghapel Bethel, Trevelin	Dydd Sul, Mehefin 30ain	12	Cafwyd te yn y festri ar ôl yr oedfa y tro hwn – llwyddiannus iawn – cyfle i bawb gymdeithasu a sgwrsio yn y Gymraeg
<b>Gorffennaf</b>	Catrin Thomas (gwirfoddolwraig) yn cyrraedd			Gwyliau am bythefnos yn Yr Ariannin
<b>Awst</b>	Sbort Sadwrn y Plant – Y Ganolfan, Esquel	Bore Dydd Sadwrn, Awst 10fed	20 (15 plentyn)	Cyfle i blant Esquel a Threvelin gyfarfod â'i gilydd am y tro cyntaf a chymryd rhan mewn nifer o weithgareddau hwyliog. Yn y gwanwyn, byddwn yn cyfarfod yn Nhrevelin
	Oedfa yng Nghapel Seion, Esquel a the	Dydd Sul, Awst 18fed		

Yn ychwanegol, dw i wedi gwneud y canlynol:

- Cyhoeddi dau rifyn o 'Llais yr Andes'.
- Ymweld ag henoed yr ardal – saith hyd yn hyn.
- Cyfieithu bwydlen a phamffled Clwb Adar (bwriadaf gyfieithu sawl bwydlen arall o nawr tan ddiwedd y flwyddyn academaidd).
- Golygu rhaglen Eisteddfod Trevelin 2013.
- Bod yn feirniad yn Eisteddfod Escolar Puerta del Sol ac Eisteddfod Porth Madryn gan gymryd rhan yn seremoni'r Cadeirio.
- Cynorthwyo yng ngwersi Cymraeg Diana Jenkins yn Ysgol 24 bob wythnos, cynnal Clwb Plant yn Nhrevelin ac yn Esquel yn wythnosol, cynorthwyo Jessica Jones yn Ysgol 166 yn wythnosol, mynd i ymarferion Côr Seion Esquel yn wythnosol, a mynd i'r dosbarth dawnsio gwerin yn Nhrevelin yn wythnosol.
- Arwain gwasanaeth angladdol tad un o athrawesau'r ysgol ar y cyd gydag Isaías Grandis.
- Mynd i gyfarfodydd Pwyllgor Cymdeithas Bro Hydref/Ysgol Gymraeg Trevelin/Pwyllgor Dathlu 150.
- Mynychu cwrs Haydn Hughes dros wyliau'r Pasg.
- Siarad ar Radio Fm del Valle Trevelin gyda Sara Borda Green er mwyn hysbysebu'r cyrsiau ac unrhyw ddigwyddiad.
- Cefnogi digwyddiadau'r cymunedau – Encuentro Céltica, Swper Dydd Gŵyl Dewi Esquel a Threvelin, Cyngerdd Hogia'r Wilber, Te yn y Ganolfan, gweithdy clocio ayb.
- Cymryd rhan mewn seremonïau arbennig – Ebrill 30ain a Gorffennaf 28ain er enghraifft.
- Trefnu llety/gweithgareddau ar gyfer Taith yr Urdd.
- Myfyrwyr Wlpan Esquel (yr ardegau) yn siarad gyda disgyblion Ysgol Gyfun y Strade, Llanelli ar Skype.



### **Skype**

Cafodd Imanol a Jere o ddosbarth Wlpan 1 Esquel gyfle i sgwrsio â chriw o fechgyn Ysgol Gyfun y Strade, Llanelli ar Skype yn ddiweddar. Roedd Eluned yn athrawes Ffrangeg a Sbaeneg i Jacob Morris, Luke Thomas a Cory Owens yn y Strade y llynedd, ac felly roedd hwn yn gyfle gwych i fechgyn Esquel ymarfer eu Cymraeg, ac i fechgyn Llanelli ymarfer eu Sbaeneg

### **Taith yr Urdd 2013**



Trefnir taith yr Urdd yn flynyddol gyda chymorth yr athrawon/swyddogion Menter Patagonia o Gymru dan arweiniad y Cydlynnydd Dysgu. Cynhaliwyd y daith ym mis Hydref/Tachwedd ac heb os mae hyn yn gyfle gwych i bobl ifainc o'r ddwy wlad gwrdd â'i gilydd a chreu cysylltiadau a chyfeillgarwch rhwng Cymru â'r Ariannin drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynhaliwyd noson gymdeithasol Menter Patagonia yn ystod cyfnod yr arolwg yn mwyty Gwalia Lan, Gaiman. Trefnwyd nifer o weithgareddau a denwyd rhyw 35 o bobl gan gynnwys rhai sydd heb fod mewn dosbarthiadau hyd yn hyn ac eraill sy'n medru tipyn o Gymraeg ond sydd fel rheol ddim yn ei defnyddio. Dyma rai o'r sylwadau gan bobl a ddaeth i'r noson;

*Noson hwyllog a bwyd blasus. Gemau diddorol. Wedi mwynhau a cofio fy nhad yn canu Gee Ceffyl Bach efo'r wyrion.'*

*'Cefais amser ardderchog heno'*

*Rydym yn hapus o fod yma. Gobeithio cawn ddod eto.'*

*Dw i wedi pasio amser diddorol iawn !!! Ardderchog !!!*

*Mae'n bleser treulio amser yng nghwmni ffrindiau a gwranddo a siarad Cymraeg a chwrdd a ffrindiau o Gymru'.*

*Hyfryd cael amser i ymlacio yn sŵn y Gymraeg. Bwyd blasus, cwmni difyr, gemau yng nghwmni ffrindiau a theulu'.*

*Dyn ni wedi mwynhau !!!! Diolch o galon !!!*

## **RHAGLENNI RADIO**

Un o ddatblygiadau mwyaf cyffrous gwaith Menter Patagonia yw cynllunio rhaglenni radio dwyieithog yn Y Wladfa ar yr orsaf radio FM leol. Yn Nhrevelin mae Eluned Evans a Sara Borda Green ( a ddaeth i Gymru ar gwrs Meistroli a Gloywi dros yr haf ) wedi cynllunio 3 rhaglen fydd yn dechrau ym mis Mawrth 2014.

Bydd un rhaglen ar faterion yn ymwneud ag Ysgol Gymraeg Trevelin e.e. cynnwys cyrsiau, clipiau opera sebon, cyfweiliadau.

Bydd rhaglen arall o'r enw Jam Llaeth sef rhaglen gylchgrawn gydag eitemau ar ffasiwn, pethau hanesyddol ac ati.

Enw'r rhaglen arall fydd Mawl a Chan a rhaglen ar ddydd Sul fydd hi ac yn fwy academiaidd ei naws gyda emynau a chaneuon traddodiadol.


Cyflwynir y rhaglenni gan Eluned a Sara a bydd yn ddatblygiad ardderchog i glywed acenion lleol yn trafod materion yn Gymraeg.

Bwriedir creu blog a bydd sgriptiau'r operâu sebon, brawddeg yr wythnos ac ati ar gael. Bydd linc hefyd i'r rhaglen fel bod pobl o bedwar ban byd yn medru gwranddo ar y rhaglenni.

Ar y cychwyn caiff y rhaglenni eu recordio o flaen llaw ond bwriedir dechrau darlleniadau byw hefyd. Gall hyn fod yn ddatblygiad pwysig iawn gan y bydd yn bosib i bobl ffonio i mewn a thrafod a siarad naill ai yn y Gymraeg neu Sbaeneg.

Yn y Dyffryn mae datblygiad tebyg ar y gweill gyda phlant ysgol eto ar y orsaf radio leol a'r gobraith yw y bydd hyn yn digwydd yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

### Cyfieithu Bwydlenni Cymraeg/Sbaeneg



Oherwydd gwaith athrawon a swyddogion Menter Patagonia mae mwy o werth masnachol i'r Gymraeg nag o'r blaen yn arbennig wrth ddenu twristiaid o Gymru.

## **ASTUDIAETHAU ACHOS**

Soraya ydw i. Rydw i wedi byw yn Esquel trwy fy mywyd i gyd.

Ces i blentyndod neis gyda llawer o hwyl. Rydw i'n cofio pan o'n i'n fach holais i lawer am fy nhaid oedd mewn llun. Roedd mam yn dweud bod e'n arfer siarad Cymraeg...a roedd fy nghwestiwn yr un peth pob tro: wyt ti'n siarad Cymraeg? Sut iaith ydy'r Gymraeg? A phob tro yr un ateb: nag ydw, dw i ddim yn siarad Cymraeg ...ond mae e'n swnio yn rhyfedd....

Pan o'n i'n 20 oed fwy neu lai fe ddaeth athrawes o Gymru o'r enw Hazel Charles Evans a ches i wahoddiad i ddysgu'r iaith. Wrth gwrs es i i'r dosbarth a theimlais i fel petawn i mewn breuddwyd arbennig. Ers hynny dw i wedi astudio'r iaith a dw i'n trio cadw hyn fel rhywbeth gwerthfawr. Dyna pam mod i'n gweithio fel tiwtor ers blynnyddoedd.

Nid dim ond ieithoedd dw i'n hoffi ond darllen, dawnsio, canu ac ati. Nofelau hanesyddol ydy fy hoff lyfrau, er enghraifft: The Eagle and the Raven gan Pauline Gedge neu The Bonesetter's daughter gan Amy Tan.

Dw i'n licio gwranddo ar bob math o gerddoriaeth o roc tan gerddoriaeth ethnig. Hefyd, rydw i'n astudio dawns Ysbaenaidd achos hoffwn i ei dysgu rhywbryd a dw i'n dwlu arno.

Eleni bydd pedwerydd blwyddyn fy mhriodas gyda Luis a thrydydd blwyddyn fy mab bach Rhys. Fe ydy fy haul a fy lleuad. Mae e'n portreadu popeth sy'n dda yn y byd i ni. Ydyn, mae Luis a fi yn hapus i fod yn rhieni. Mae'r ddau ohonon â gobaith mawr amdano, oherwydd plant ydy dyfodol y diwylliant a'r iaith.

### **CATRIN THOMAS –Gwirfoddolwraig Awst 2013**

Dw i am flynyddoedd wedi rhyfeddu at y syniad bod pobl y Mhatagonia yn medru siarad Cymraeg a chan nad ydwyf wedi gwneud llawer o deithio roedd y syniad o ymweld a Phatagonia yn un cyffrous iawn ! Roeddwn i eisiau gwneud mwy nag ymweld a'r pentrefi 'Cymreigaidd' ac roedd chwant arna i i weithio gyda'r gymuned er mwyn cael gwir flas ar sut mae'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio. Ces i sioc pan sylweddolais pa mor dda y mae'r oedolion a'r plant yn siarad yn Gymraeg yn enwedig pan nad oes llawer o Gymraeg yn eu cartrefi. Ond yn fwy na hynny, mae'r awydd i ddysgu'r iaith yn gryf ym Mhatagonia ac y maent yn dyfalbarhau yn wythnosol ar eu gwersi. Maent trwy'r amser yn manteisio ar y cyfle i siarad yr iaith ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol fel dawnsio gwerin er bod eu bywydau'n brysur gydag ysgol a gwaith.

Mae'n amlwg bod cymdeithas glos wedi datblygu yma yn Esquel a Threfelin. Roedd yn neis cael gweld plant Esquel a Threvelin hefyd yn cael y cyfle i gwrdd ar ddyd Sadwrn i chwarae gemau a chymdeithasu. Dwi wir wedi mwynhau fy mhrofiad yma, a hoffwn i ddiolch i bawb



am fod mor groesawgar i mi, yn enwedig i Eluned sydd wedi rhoi gymaint o gyfleoedd i mi helpu ac i Liliana a'i theulu am roi lle i mi aros.

Mae'r gymdeithas Gymreigaid yma yn amlwg yn un bwysig iawn iddynt a byddai'n wych tasai hyd yn oed mwy o gyfleoedd i blant ac oedolion Esquel a Threvelin gyfuno ac i fwynhau'r iaith Gymraeg ! Diolch yn fawr.

Enillodd Virginia Steinkemp, Sara Borda Green a Cinthia Zamarreño ysgoloriaethau i astudio ar gwrs Uwch 2 ( Meistroli ) Gloywi am gyfnod o 5 wythnos ac enillodd Ivana Mansilla ac Estela Jones ysgoloriaeth i astudio ar gyrsiau Canolradd ac Uwch 1 yn ystod Gorffennaf ac Awst 2013 yng Nghanolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg, Prifysgol Caerdydd.



O'r chwith i'r dde

Sara Borda Green, Ivana Mansilla, Virginia Steinkemp, Cinthia Zamarreño, Estela Jones



Mae'r effeithiau y Cynllun yn ddigon arwyddocaol ar gyfer cadw y nifer o siaradwr a dysgwyr Cymraeg yn yr ardal. Mae'r dosbarthiadau yn helpu i'r diwylliant Cymreig dyfu a llwyddo i fod yn fwy Cymreig trwy defnyddio'r iaith ar yr amrywiaeth o weithgareddau, sef eisteddfodau, digwyddiadau gan Menter Patagonia, dathliad Gwyl y Glaniad, Gwyl Dewi Sant, ac yn y blaen. Mae'n debyg bod y nifer o ddysgwyr Cymraeg wedi tyfu oherwydd y dosbarthiadau Cymraeg, gwersi mewn ysgolion ac i oedolion sy'n helpu i gynyddu'r nifer o bobl sy'n adnabod yr iaith a'r diwylliant bob blwyddyn. Dechreuais i weithio gyda'r prosiect, y llynedd fel athrawes Ysgol 61 yn ardal Bryn Gwyn yn Y Gaiman ond ym Mis Gorffennaf, des i i Gaerdydd i wneud y cyrsiau yn y Brifysgol. Ar ôl i mi ddod yn ôl, bues i yn yr Ysgol Feithrin yn y Gaiman yn helpu gyda'r dosbarth plant ifancaf –flwyddyn a hanner hyd tair blwydd oed-. Mwynheuais i weithio yno tan ddiwedd y flwyddyn. Eleni, mi weithio, yn hwyr gobeithio bydda i'n dechrau yn nosbarth Meithrin Ysgol yr Hendre ac yn helpu gyda phopeth sy'n ymlaen yn Nhrelew a'r ardal.

Dechreuais i ddysgu Cymraeg pan o'n i'n ddeuddeg mlwydd oed, mewn dosbarth roedd yn Neuadd Dewi Sant Trelew, gan y Gynllun yr iaith ym Mhatagonia. Ym mhersonol dwi mor ddiolchgar i'r prosiect achos dwi wedi llwyddo dysgu'r iaith, ond allan o hynny; dwi'n meddwl, trwy ddysgu'r iaith, dwi wedi datblygu llawer o pethau arall o'm mywyd i a dyna pam dwi'n dal ymlaen ac yn cefnogi'r syniad o gadw'r iaith yn fyw yn y Wladfa ac yng Nghymru.

Dwi meddwl bydd llawer o bobl yn cytuno a fi os dwi'n sôn am y Prosiect yr iaith ym Mhatagonia fel rhywbeth pwysig iawn sy'n helpu ac yn rhoi cymorth i bawb ym Mhatagonia. Felly dyna pam mae llawer o bobl yn ddiolchgar am y cyfle i ddod yma, fel fi, neu am y gwaith llwyddiannus yn draw fanna sy'n ddatblygu yr iaith bob dydd tipyn bach yn fwy.

Yn ddiolchgar

### **Virginia Steinkamp**

Mae'r Cynllun yn bwysig iawn i fi am nifer o resymau. I ddechrau, bysai wedi bod yn anodd dysgu'r iaith mewn gwlad lle mae pawb yn siarad Sbaeneg.

Ac, wrth gwrs, dw i'n credu mai dysgu iaith yn golygu bod byd cyfan wedi cael ei agor i fi: adnabod pobl, bywyd, hanes, llenyddiaeth, cerddoriaeth, ac yn y blaen.

Dw i mor falch fy mod wedi cadw'r frwydr a pheidio a cholli'r iaith yr amser a fues i ffwrdd o'r Wladfa, a bod y Cynllun wedi gwneud yr un peth dros gymaint o flynyddoedd.

Rwan dw i wedi symud yn ôl i Drevelin, a dw i'n gweithio yn y r Ysgol Gymraeg fel athrawes Ysgol Feithrin, ym Mhwyllgor yr Eisteddfod ac yn helpu trefnu pob math o weithgareddau.

Yn fy marn i, mae'r cyfryngau -ar we yn bendant- yn caniatáu mynd a dod llwyddiannus rhwng yr Hen Wlad a'r Wladfa. Astudiais i Cyfryngau ym Muenos Aires, efallai dyna'r rheswm fy mod i'n bwriadu gweithio i gryfhau presenoldeb y cynllun yn y gymuned, fel bod mwy o bobl yn gallu cael y profiad arbennig dw i'n ei gael ers fy mhientyndod.

Rwan dyn ni mor agos i'r Canmlwyddiant a hanner o laniad y Mimosa ym Mhatagonia, dw i'n credu bod cyfle arbennig i'r Cynllun ddod i'r golwg i ddathlu ei waith dros y blynyddoedd diwethaf ac i barhau gyda'r llafur dros yr iaith yn y dyfodol. **Sara Borda Green**

Cinthia Zamarreño ydw i. Dw i'n athrawes cerddoriaeth, a dw i'n gweithio yn yr Ysgol Feithrin Gymraeg yn y Gaiman, ym Mhatagonia.

Diolch i'r Cynllun, ces i'r cyfle i ddysgu'r iaith Gymraeg yn y Gaiman (ers mwy na ddeg mlynedd) ac yn Nghymru (yn 2009, wnes i y Cyrsiau Pellach ac Uwch 1; ac eleni dw i'n wneud Cwrs Uwch 2 a Gloywi)

Dechreuais i ddysgu Cymraeg pan o'n i'n ddeg oed, ac ers hynny, dw i'n dal i fynychu gwahanol ddsbarthiadau.

Dw i'n credu bod Cynllun yr Iaith Gymraeg yn gwneud gwaith pwysig iawn ym Mhatagonia.

Fel myfyrwraig, dw i wedi astudio gyda athrawon sy wedi mynd draw i Batagonia diolch i'r Cynllun, sy'n talu am eu gwaith; ac fel rhan o'r athrawon o'r Ysgol Feithrin Gymraeg yn y Gaiman, dw i'n ddiolchgar iawn gyda'r Cynllun hefyd am eich holl help ac am yr arian dach chi'n rhoi i ni ar gyfer ein gwaith.

Dechreuais i fy ngwaith yn yr Ysgol Feithrin yn 2008, fel cynorthwydd dosbarth, ac fel athrawes dawns werin Gymraeg.

Yn 2009, ces i ysgoloriaeth i dod i Gymru i wneud Cwrs Pellach a Chwrs Uwch ym Mhrifysgol Caerdydd, ac ar ôl hynny, bues i yn gweithio fel athrawes dosbarth.

Ar hyn o bryd, dw i'n dysgu cerddoriaeth a dawns werin Gymraeg yn yr Ysgol Feithrin Gymraeg trwy'r iaith Gymraeg, dan ni ddim yn siarad yn Sbaeneg gyda'r plantos, dim ond Cymraeg sydd yn yr Ysgol.

Mae tua 50 o blant yn mynd eleni i'r Ysgol (o flwyddyn a hanner tan bump oed), a dydy'r rhan fwyaf ohonyn nhw ddim yn dod o dras Gymreig, ond mae'n nhw'n dysgu'r iaith yn gyflym iawn achos dan ni'n bwysleisio trwy'r amser pwysigrwydd siarad am BOPETH yn Gymraeg ym mhob dosbarth.

Mae llawer o bobl yn gweithio dros yr iaith Gymraeg ym Mhatagonia, ac mae'r rhan fwyaf ohonon ni wedi bod yn Nghymru i hyfforddi drwy gyrsiau neu arsylwadau mewn gwahanol ysgolion diolch i'r Cynllun.

**Cinthia Zamarreño**

Adroddiad Perfformiad Cinthia Zamarreño

Dechreuodd ar ei gwaith yn yr Ysgol Feithrin yn 2008 fel cynorthwydd dosbarth.

Gwnaeth y swydd am ddwy flynedd yn unol â'r perfformiad a ddisgwylir.

Ers 2010, bu'n gwasanaethu fel athrawes ddosbarth. Mae ei gwaith bob tro yn gyfrifol ac yn broffesiynol.

Y flwyddyn yma, sef 2013, mae'n dysgu dawn a cherddoriaeth Gymraeg mewn tri dosbarth yn Ysgol Feithrin y Gaiman.

Mae hi'n agored ac yn barod i dderbyn awgrymiadau tuag at wella ei gwaith.

Mae'n gyfranogol ym mhob gweithgaredd allgyrsiol.

Mae hefyd yn weithredol ym mhob eisteddfod gyda cherddoriaeth a llenyddiaeth, yn adrodd, ac yn llwyddo i gael canlyniadau da i'w myfyrwyr.

Gwneir yr adroddiad hwn ar gais y person dan sylw er mwyn i'w gyflwyno yn briodol.

Liliana Evans

Prifathrawes YGYG

## EISTEDDFOD PUERTA DEL SOL

P'nawn dydd Mawrth 2ail o Orffennaf, ynghanol glaw trwm, cawsom fwynhau Eisteddfod y Plant yn Nhrevelin. Fe ddechreuodd yr arbrofion adrodd Sbaeneg a Saesneg, ar fore ddydd Llun, am wyth o'r gloch y bore tan bump y p'nawn gan newid y lleoliad rhwng y tair ysgol oedd yn cystadlu. Yr oedd dros 150 o blant yn yr adroddiad 'Quien'! Llauer o hwyl yn gweld ambell un yn troi botymau a cuddio ei ddwylo yn ei bocedi...

Cawsom ganu'r anthem genedlaethol i ddechre ac ar ôl i María Esther, y brif athrawes, estyn gair o groeso, fe ddechreuodd y cystadlu brwd.

Fe wnaeth plant Ysgol Gymraeg Esquel gystadlu mewn cân ysgafn dan arweiniad Glenda a disgyblion Ysgol Trevelin adrodd a dawnsio gwerin wedi eu hyfforddi gan Jessica.

Pan ddaeth amser i gadeirio'r beirdd, un hyd 12 a'r llall hyd 20 oed, hyfryd oedd gweld Lara Green yn cael ei thywys i'r llwyfan gynta a wedyn Maite Jaeger Ingram, disgynyddion i ddwy ffrind oedd yn byw mewn ffermydd cyfagos, Vera ac Irene!

Diweddglo hyfryd i ddau ddiwrnod prysur, ond yn gyfle i gwrdd â llauer o ffrindiau. Edrych ymlaen yn awr i weld y rhai bach yma yn cystadlu yn Eisteddfod Trevelin, mis Tachwedd nesa!!

### Alwen Green



## ARGYMHELLION

- 1) Codi cyflog tiwtoriaid lleol os yw'n ymarferol bosib. Ar hyn o bryd telir \$35 yr awr iddynt i gymharu â rhyw \$60 yr awr i athrawon y dalaith. Oherwydd chwyddiant yn Yr Ariannin a gwendid y bunt mae gwerth ein harian yn llawer llai nag yn y gorffennol. Mae talu \$35 yr awr fel talu rhwng £4 a £5 yr awr yng Nghymru. Oherwydd hynny nid ydym yn gallu cadw nifer o athrawon brodorol fyddai'n medru dysgu'r iaith. Yn yr un modd nid yw ein cyflogau i'r Cydlynnydd a'r athrawon o Gymru yn ddigonol erbyn hyn ac mae eu cyflogau wedi gostwng yn sylweddol mewn termau real yn ystod y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf.
- 2) Penodi arbenigwyr plant ac oedolion i'r Dyffryn. Mae hyn yn bwysig o ran cynnal y cynnydd sydd wedi bod mewn niferoedd oedolion ac wrth gwrs i gynorthwyo yn y broses o sefydlu addysg gynradd ddwyieithog yn Gaiman.
- 3) Mae angen gweithredu cynllun adfer niferoedd yn ardal Yr Andes. Yn groes i'r hyn sydd yn digwydd yn y Dyffryn gwelwyd cwmp yn y niferoedd o 225 yn 2012 i 157 yn 2013 gyda llai o oedolion a phlant yn dysgu. Mae cynlluniau ar y gweill i ymestyn oriau cyswllt yr ysgol feithrin yn Nhrevelin ac mae rhai datblygiadau megis cyrsiau gweithle wedi denu pobl newydd. Fodd bynnag dylai fod yn bosib i ni gynyddu niferoedd yno wrth ystyried bod hanner ein gweithlu llawn amser yn weithredol yn yr ardal.
- 4) Parhau gyda darparu cyrsiau penodol e.e. Cymraeg yn y Gweithle, Cymraeg i Rieni. Dylai hyn fod yn ffordd o gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.
- 5) Dylid cynnal cyrsiau byrion megis cyrsiau blasu a chysiau paratoi yn ystod pythefnos cyntaf y flwyddyn addysgol newydd fel ffordd o gadw dysgwyr presennol a denu pobl newydd.
- 6) Mae angen cydlynu ymgyrchoedd marchnata mwy effeithiol a chynhwysfawr yn lleol cyn dechrau'r flwyddyn addysgol newydd.
- 7) Adfer niferoedd mewn ysgolion cyfrwng Sbaeneg yn Yr Andes trwy Connecting Classrooms gan seilio prosiectau ar ddathliadau 2015.
- 8) Mae angen sicrhau bod y targedau sydd gan y Cynllun yn rhai CAMPUS. Mae gosod targed o 3 ysgol mewn blwyddyn yn anodd os nad yn

amhosib ei gyrraedd wrth ystyried y nifer gymharol fach o ysgolion yn Y Wladfa sy'n dysgu'r Gymraeg.

9) Dylid cydweithio â'r Pwyllgor Dathliadau 2015 ac yn ceisio dylanwadu arnynt i sicrhau bod effaith barhaol i'r holl ddigwyddiadau a drefnir.

10) I dynhau gweithdrefnau mewnol gan sicrhau bod mwy o fewnbwn gan yr athrawon/swyddogion sy'n dychwelyd yn y broses o lunio raglenni'r gwaith y flwyddyn ganlynol.

## ATODIADAU

1) Adroddiad y Cydlynnydd Dysgu am ei hymweliad â Chymru

2) Cwrs Gweithle Swyddfa Dwristiaeth Gaiman

3) Llais Yr Andes ( Rhagfyr 2013 )

